



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg

Mae'r ddogfen hon yn datgan sut y bydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r safonau'n nodi nifer y ffyrdd y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau drwy'r Gymraeg a hwyluso ac annog y defnydd ohoni yn y gweithle.

Mae Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Comisiynydd wedi'u rhannu'n bedwar categori gwahanol:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Crëwyd cronfa dda sy'n cofnodi dewis iaith unigolion
- Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymateb i ohebiaeth (llythyr a neges e-bost), ateb y ffôn, trefnu a chynnal cyfarfodydd a chyfarch ymwelwyr
- Mae pob llythyr templed wedi'u diweddarau i gydymffurfio â'r Safonau
- Rydym wedi cyflwyno system ffôn sy'n galluogi'r galwr i ddewis iaith
- Mae pob neges peiriant ateb yn ddwyieithog
- Mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog
- Mae pob dogfen a gynhrychir at ddefnydd cyhoeddus yn ddwyieithog
- Byddwn yn gofyn i bobl sy'n mynychu cyfarfodydd am eu dewis iaith. Os bydd mwy na 10% yn datgan eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, yna darperir gwasanaeth cyfieithu
- Mae pob hysbysiad a hysbyseb cyhoeddus yn ddwyieithog
- Mae ein gwefan yn ddwyieithog
- Rydym yn gwirio pob arwydd i sicrhau cydymffurfiaeth

- Cyhoeddir pob tendr ar gyfer contractau yn ddwyieithog
- Darperir ymateb Cymraeg i dendrau a dderbynnir yn y Gymraeg, a bydd unrhyw gyfweliadau yn cael eu cynnal gyda chymorth cyfieithydd

Safonau Llunio Polisiâu

- Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar y Safonau Llunio Polisiâu
- Bydd pob aelod o staff yn ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i bolisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r
- Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn derbyn triniaeth llai ffafriol na'r Saesneg
- Mae ffurflen dempled Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i chynhyrchu i'w defnyddio a'i chwblhau gan bob aelod o staff
- Mae canllaw ar Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynhyrchu i helpu staff i gwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Os caiff gwaith ymchwil ei gomisiynu i gynorthwyo'r broses o lunio polisiâu, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid sicrhau nad yw'r penderfyniad polisi yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Safonau Gweithredol

- Rydym wedi cynhyrchu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith
- Rydym wedi cyflwyno gweithdrefn Adnoddau Dynol lle gofynnir i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio'n bersonol iddynt hwy yn Gymraeg
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'u hanghenion hyfforddiant a'u hamcanion perfformiad yn Gymraeg
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn Gymraeg
- Cyhoeddir pob polisi yn ddwyieithog

- Hysbyswyd pob aelod o staff y gallant wneud cwynion yn Gymraeg a bod ganddynt hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg
- Cynigir cyfle i bob aelod o staff gynnal unrhyw gyfarfodydd sy'n ymwneud â chwynion amdanynt hwy yn Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd)
- Cyhoeddir unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn Gymraeg
- Mae polisïau wedi'u diweddarau er mwyn adlewyrchu'r Safonau
- Darparwyd meddalwedd gyfrifiadurol i staff sydd ei hangen i wirio eu sillafu a'u gramadeg yn Gymraeg
- Mae sgiliau Cymraeg pob aelod o staff wedi'u hasesu drwy hunanasesiad
- Rydym wedi darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion dderbyn hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg
- Mae cyrsiau hyfforddiant yn cael eu darparu i godi ymwybyddiaeth y staff o'r Gymraeg
- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu
- Darparwyd geiriad a logo ar gyfer llofnod e-bost aelodau o staff er mwyn hysbysu pobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr
- Bydd sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag yn cael eu hasesu
- Bydd swyddi yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog a byddwn yn datgan y sgiliau ieithyddol gofynnol
- Bydd hysbysebion yn datgan ein bod yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg
- Bydd unrhyw wybodaeth am recriwtio yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog
- Bydd ffurflenni cais yn darparu gofod er mwyn i unigolion allu datgan a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cam
- cyfweliad ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu
- Bydd unrhyw arwyddion newydd yn cael eu harddangos yn Gymraeg

Cadw Cofnodion

- Byddwn yn cadw cofnod o'r nifer o gwynion y byddwn yn eu derbyn ynglŷn â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- Byddwn yn cadw copi o unrhyw gŵyn y byddwn yn ei derbyn mewn cysylltiad â'r Safonau
- Byddwn yn cadw cofnod o'r camau a gymerir i gydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisiau
- Byddwn yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg pob aelod o staff a chadw'r hunanasesiadau
- Byddwn yn cadw cofnod o'r asesiadau y byddwn yn eu cynnal ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg swyddi newydd neu swyddi gwag
- Byddwn yn cadw cofnod o sut y cafodd pob swydd newydd neu swydd wag eu categorio o ran y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar eu cyfer